# ‘GWOBRAU ARFER DA’ 2021

## Cydnabod cyflawniadau a rhannu arfer da wrth ymgysylltu â thenantiaid a'r gymuned

Noddwyd gan:

Tai Wales & West Housing

TPAS CYMRU — You matter | Ti'n cyfri

# Canllawiau

Gadewch i ni rannu a chydnabod arfer da cyfranogiad tenantiaid a chymunedau ledled Cymru!

Gwyddom eich bod oll yn gwneud llawer o ymgysylltu gwych rhwng tenantiaid a chymunedau, er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf. Mae ein Gwobrau yn ymroddedig i gydnabod y gwaith hwn a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i denantiaid, preswylwyr a chymunedau. Maent hefyd yn ffordd bwysig o rannu arfer da ar draws cymunedau a'r sector tai i gefnogi ac ysbrydoli eraill.

I'r perwyl hwn, rydym wedi creu 5 categori ‘gwobr arfer da’ nid yn unig i gydnabod y gwaith a wnaed, ond hefyd fel y gallwn rannu’r arfer da ag eraill. Gwyddom hefyd bod pawb yn brysur ar yr adeg hon felly rydym wedi ceisio gwneud y broses enwebu mor syml â phosibl.

**Beth yw’r categorïau?**
Dyma’r 5 categori – gweler y meini prawf llawn ar gyfer pob un ohonynt ar y dudalen nesaf.

1. **Cymunedau yn Cefnogi Cymunedau**
2. **Gwneud i Gyfranogiad Tenantiaid Weitho Ar-lein**
3. **Cynnwys Tenantiaid wrth Lunio Gwasanaethau**
4. **Cyfathrebu â Thenantiaid a Phreswylwyr**
5. **Tenant y Flwyddyn**

**Beth yw’r broses o enwebu?**

1. Edrychwch trwy'r 5 categori a'r meini prawf ar eu cyfer. Beth allech chi ei gyflwyno? A allech rannu'r manylion gyda chydweithwyr a thenantiaid eich sefydliad a allai fod eisiau enwebu? Nid oes rhaid iddo ymddangos o reidrwydd yn brosiect ‘arloesol’, pa wahaniaeth y mae wedi’i wneud sy’n cyfrif! Siaradwch â ni os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am y categorïau.
2. Llenwch y ffurflen enwebu syml – Canolbwyntiwch ar y ffeithiau, nid oes angen testun hir arnom, mae pwyntiau bwled yn iawn. Cyfeiriwch at y meini prawf ar gyfer pob categori a chwblhewch y ffurflen enwebu safonol o dan y penawdau penodol hyn. Os gallwch chi, cofiwch gynnwys gwybodaeth fel lluniau/delweddau/dolenni gwe ac ati i ddangos yr hyn rydych chi wedi'i wneud. Gofynnwch i ni am gymorth os bo angen.
3. Cofiwch gynnwys llun ar gyfer yr enwebiad fel y gallwn ei ddefnyddio mewn cyhoeddusrwydd.
4. Dychwelwch y ffurflen enwebu erbyn 12pm, dydd Gwener 19 Tachwedd at iona@tpas.cymru
5. Cyhoeddir enillwyr mewn digwyddiad ar-lein am ddim ddydd Mawrth 15 Rhagfyr 2021
6. Dim ond gan aelod-sefydliadau TPAS Cymru a'u tenantiaid/preswylwyr y derbynnir enwebiadau.

# Manylion llawn a meini prawf ar gyfer pob categori

## Cymunedau yn Cefnogi Cymunedau

Mae'r wobr hon yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau **grŵp neu brosiect a arweinir gan y gymuned** sydd wedi cefnogi grwpiau neu unigolion eraill yn eu cymuned. Gallai'r gefnogaeth hon gynnwys cefnogaeth megis: cynnal gweithgareddau cymunedol, darparu cyfleusterau lleol, siopa i gymdogion; cadw llygad ar bobl fregus; cefnogaeth llesiant, sefydlu cyfryngau cymdeithasol i helpu grwpiau ac ati. Os yw'r gymuned yn gwneud rhywbeth dros y gymuned, byddem wrth ein bodd yn clywed amdano!

**Meini Prawf Asesu:**

- Y math o gefnogaeth a ddarperir
- Sut mae anghenion y cymunedau/unigolion wedi cael eu diwallu
- Yr effaith y mae'r gefnogaeth wedi'i chael ar unigolion/cymunedau
- A ellir cynnal/addasu'r prosiectau ar gyfer y dyfodol

## Gwneud i Gyfranogiad Tenantiaid Weithio Ar-lein

Mae'r wobr hon yn cydnabod cyflawniadau **landlord cymdeithasol a/neu grŵp tenantiaid** sydd wedi cynnal a/neu geisio datblygu gweithgareddau/cyfarfodydd Cyfranogiad Tenantiaid ar-lein i sicrhau bod lleisiau tenantiaid yn parhau i gael eu clywed.

Ydych chi'n defnyddio llwyfannau ar-lein fel Zoom/Teams ar gyfer cyfarfodydd neu'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â thenantiaid, fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth lunio a dylanwadu ar wasanaethau a phenderfyniadau?

Nid oes rhaid iddo fod yn berffaith eto, efallai ei fod yn waith ar y gweill - mae hefyd yn ymwneud â rhoi cynnig ar syniadau newydd a'r ymrwymiad i wneud iddo weithio.

**Meini Prawf Asesu:**

- Y gefnogaeth a roddir i denantiaid i'w galluogi i gymryd rhan gan ddefnyddio gwahanol lwyfannau/dulliau ar-lein
- Yr ystod o weithgareddau ymgysylltu ar-lein a ddefnyddir
- Y canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma a'r buddion i'r boblogaeth ehangach o denantiaid
- Unrhyw broblemau ar hyd y ffordd a sut rydych chi wedi ceisio neu yn ceisio goresgyn y rhain
- Unrhyw lwyddiant wrth ddenu tenantiaid newydd i gymryd rhan oherwydd bod y grŵp yn ymgysylltu ar-lein
- Unrhyw wersi a ddysgwyd: gwerth am arian; datblygu Ymgysylltu Tenantiaid am y dyfodol gan ddefnyddio dulliau ar-lein neu hybrid

## Cynnwys Tenantiaid wrth Lunio Gwasanaethau

Rhoddir y wobr hon i **landlord cymdeithasol** sydd wedi cynnwys tenantiaid/preswylwyr yn llwyddiannus wrth lunio gwasanaethau e.e. dylunio gwasanaethau newydd, nodi gwelliannau gwasanaeth, gosod rhent a thaliadau gwasanaeth, profi gwasanaethau ar-lein, monitro cwynion ac ati.

**Meini Prawf Asesu:**

- Sut mae'r gwasanaeth wedi'i lunio o ganlyniad i gyfranogiad tenantiaid e.e. gosod rhent/tâl gwasanaeth
- Sut oedd tenantiaid yn rhan o lunio'r gwasanaeth h.y. lefel y cyfranogiad/ymgynghoriad, y gefnogaeth a gynigir i denantiaid i gymryd rhan a chynwysoldeb
- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud/y bydd yn ei wneud - canlyniadau'r cyfranogiad a sut y rhannwyd y canlyniadau hynny gyda'r corff tenantiaid ehangach

## Cyfathrebu â Thenantiaid a Phreswylwyr

Mae'r wobr hon yn cydnabod pa mor effeithiol y mae **landlord cymdeithasol** yn cyfathrebu â'i denantiaid a phreswylwyr/defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn gynnwys ystod o ddulliau cyfathrebu fel fideo; ffeithluniau, cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, Facebook Live a chyswllt uniongyrchol ac ati.

Dywedwch wrthym sut rydych chi'n cyfathrebu â'ch tenantiaid a pha wahaniaeth mae'n ei wneud, megis; codi ymwybyddiaeth o wasanaethau neu'r gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig, adeiladu cysylltiadau a deal neuu bod yn atebol am berfformiad a chynlluniau eich sefydliad.

**Meini Prawf Asesu:**

- Yr ystyriaeth a roddir i amrywiaeth/priodoldeb y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir o ran amrywiaeth y tenantiaid e.e. iaith blaen/osgoi jargon wrth gyfathrebu.
- Yr ystod o bynciau a gyfathrebwyd
- Effeithiolrwydd y cyfathrebu e.e. adborth gan denantiaid/defnyddwyr gwasanaeth, dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- Unrhyw wersi a ddysgwyd a chynaliadwyedd y dulliau

## Tenant y Flwyddyn

Rhoddir y wobr hon **denant/preswylydd landlord cymdeithasol** sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at Gyfranogiad Tenantiaid.

**Meini Prawf Asesu:**

- Yr ymrwymiad a'r ymroddiad y maen nhw wedi'u dangos
- Pa wahaniaeth y mae eu hymrwymiad wedi'i wneud i'r gymuned denantiaid a/neu'r grwpiau y maent wedi gweithio â nhw

- Pa mor gynhwysol maen nhw wedi bod a sut maen nhw wedi ystyried amrywiaeth y boblogaeth ehangach o denantiaid
- Enghreifftiau clir o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni a sut mae wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol
- Unrhyw heriau neu anawsterau personol y maent wedi'u hwynebu. Rydym am gydnabod dyfnder eu hymrwymiad yn llawn

~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~

## Telerau ac Amodau (y rhan diflas!)

- **Rhaid derbyn ceisiadau erbyn canol dydd, dydd Gwener 19 Tachwedd 2021. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried.**
- Bydd yr holl geisiadau yn cael eu barnu ar yr wybodaeth a ddarperir ar adeg ymgeisio a ni dderbynnir unrhyw ohebiaeth ddilynol tuag ato.
- Bydd y ceisiadau yn cael eu beirniadu gan ddefnyddio sgiliau tîm TPAS Cymru ac Aelodau'r Bwrdd gan ddefnyddio'r meini prawf asesu.
- Trwy gystadlu yn y Gwobrau, rydych yn cytuno i unrhyw wybodaeth a/neu ddelweddau a roddwyd i'w cael eu defnyddio ar gyfer deunydd cyhoeddusrwydd.
- Bydd yr enw y rhoddwch ar eich cais a'r enw y defnyddir gennych ar gyfer eich sefydliad yn penderfynu sut yr enwir eich cais yn yr holl ddeunydd hyrwyddo.
- Noder: Mae gan TPAS Cymru'r hawl i roi ceisiadau mewn categori gwahanol os yr ystyrir fod y cais yn cyfarfod meini prawf un o'r gwobrau eraill yn fwy effeithiol.

***Cofiwch y cewch ofyn cymorth gan staff TPAS Cymru: gallwn eich cynghori ynglŷn â'r meini prawf; llenwi'r ffurflen enwebu; a pa wybodaeth gefnogol y gallwch ei gynnwys. Fodd bynnag, ni allwn eich cynorthwyo'n uniongyrchol wrth gwblhau eich enwebiad.***



GWELER EIN CWESTIYNAU CYFFREDIN DROS Y DUDALEN

# Cwestiynau Cyffredin

## A yw'n costio i gyflwyno cais?

Nid yw'n costio i gyflwyno cais i 'Wobrau Arfer Da' TPAS Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi fod yn aelod o TPAS Cymru ar adeg cyflwyno'r enwebiad i gymryd rhan.

## A ellir cyflwyno cais drwy'r post?

Yn anffodus, na. Gan nad ydym yn gweithio o'r swyddfeydd ar hyn o bryd, dim ond trwy e-bost y gallwn dderbyn enwebiadau.

## A ellir cyflwyno cais ar y cyd â sefydliad partneriaeth?

Gellir, fodd bynnag mae'n rhaid i'r partner arweiniol fod yn aelod o TPAS Cymru.

## A ellir rhoi rhagor o wybodaeth, yn ogystal â chwblhau ffurflen enwebu safonol, i gefnogi fy nghais?

Gellir, cewch gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eich cais megis lluniau, gwybodaeth y wasg, dolenni gwefan. Noder: Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gallem ddefnyddio'r wybodaeth neu luniau a gyflwynwyd fel rhan o'ch cais ar gyfer ein deunyddiau marchnata ni. Trwy gymryd rhan yn y gwobrau, rydych yn cytuno i hyn.

## A oes cyfyngiad i'r nifer o geisiadau y gallaf eu cyflwyno?

Na. Fe wnawn dderbyn mwy nag un cais o'r un sefydliad.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?

Wedi derbyn eich enwebiad, byddwn yn cysylltu â chi trwy e-bost i gadarnhau ein bod wedi ei dderbyn. Mae'n hollbwysig eich bod yn cysylltu â ni o fewn 24 awr os and ydych wedi derbyn cadarnhad gennym. Ar ôl y broses o feirniadu, fe wnawn gyhoeddi rhestr fer o'r rownd derfynol ar gyfer pob un o'r categorïau ac fe'ch hysbysir os ydych wedi bod yn llwyddiannus.

**Noddir y digwyddiad hwn gan:**

Tai Wales & West Housing